# Carol: Cydlawenhawn

*Y geiriau gwreiddiol ('Joy to the world') gan Isaac Watts*
*a'r gerddoriaeth gan George Frederic Handel.*

Cydlawenhawn! Fe ddaeth yr Iôr:
Croesawn ein Brenin Mawr!
I galon dyn agorwyd dôr -
O! caned teulu'r llawr.

Cydlawenhawn! Gorseddwyd Iôr,
O! dybled seiniau'r gân
Ar fryn a dôl, dros dir a môr
Gan bawb yn ddiwahân.

Ni phoena'r drain y galon friw,
Na chlais, na llidus glwy'
Cans daeth y Crist â'i fendith wiw
I ymlid melltith mwy.

Gras a gwirionedd Crist o'r Ne'
A lywodraetha'r byd,
Dan faner ei gyfiawnder Ef
A gwyrth ei gariad drud.

*cyf. Maurice Loader*